**Lynne Neagle AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg**
**Cabinet Secretary for Education**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/ Our ref LN/00013/26

Carolyn Thomas AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau

09 Chwefror 2026

Annwyl Carolyn,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 6 Ionawr 2026 ynghylch Deiseb P-06-1560: Adfer darpariaeth toiledau un rhyw mewn lleoliadau addysgol.

Rwy'n gwerthfawrogi'r pryderon a godwyd gan y ddeiseb ynghylch darparu toiledau un rhyw mewn ysgolion, ac rwy'n ymwybodol o adroddiad Merched Cymru. Hoffwn egluro ei bod yn ofynnol yn gyfreithiol i ysgolion yng Nghymru ddarparu ystafelloedd ymolchi un rhyw ar wahân i fechgyn a merched wyth oed a hŷn, fel y nodir yn Rheoliadau Addysg (Adeiladau Ysgol) 1999. Rhaid i awdurdodau lleol, awdurdodau esgobaethol, ysgolion a chyrff llywodraethu sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth sy'n llywodraethu darparu a dylunio toiledau.

Gofynnwyd y canlynol yn yr ymgynghoriad yn 2025 ar y canllawiau gwrth-fwlio *Hawliau, parch, cydraddoldeb:* "*I ba raddau ydych chi'n cytuno y dylid diwygio Rheoliadau Addysg (Mangreoedd Ysgolion) 1999 i wneud yn glir y caiff ysgolion ddarparu toiledau rhywedd-niwtral yn ogystal â thoiledau ar wahân ar sail rhyw?*". Dadansoddwyd yr ymatebion i'r ymgynghoriad a'u cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru. Bydd fersiwn derfynol y canllawiau gwrth-fwlio *Hawliau, parch, cydraddoldeb* yn cael ei chyhoeddi cyn diwedd tymor y llywodraeth hon.

Rwy'n disgwyl i gyrff llywodraethu ysgolion ddatblygu polisïau synhwyrol ar gyfer defnyddio toiledau yn ystod y diwrnod ysgol sy'n ystyried anghenion disgyblion. Mae'n bwysig bod pob dysgwr yn teimlo'n ddiogel i ddefnyddio cyfleusterau toiled ar unrhyw adeg.

Pan fo pryderon am ddarpariaeth toiledau mewn ysgolion, mae dulliau lleol ar gael a all fod yn effeithiol i'w datrys, megis adborth i'r pennaeth neu'r corff llywodraethu neu drwy weithdrefn gwyno ffurfiol yr ysgol lle bo angen.

Yn gywir,

**Lynne Neagle AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg
Cabinet Secretary for Education

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lynne.Neagle@llyw.cymru
Correspondence.Lynne.Neagle@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Byddwn yn ateb i ohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn yr un iaith ac ni fydd gohebu yn y Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.